| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Archwilio |
| **DYDDIAD:** | 7 Tachwedd 2014 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Ymateb i Adroddiad PWC ar yr Archwiliad o Grantiau 2012/13 |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | Y Cynghorydd H E Jones |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Richard Micklewright |
| **CYSWLLT:** | Jenny Whiston |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Ymateb i faterion a godwyd yn Adroddiad Archwilio Grantiau Blynyddol PWC 12-13 |

**1.0 Cefndir**

1.1 Rhaid i archwilwyr allanol y Cyngor, PWC, adrodd yn flynyddol ar yr ardystiad o geisiadau am grantiau a dychweliadau.

1.3 Ardystiwyd 38 o geisiadau am grantiau i gyd a oedd yn werth £87,442,975.73 gydag addasiadau o £207,937 yn dilyn eu harchwilio. Roedd hyn yn gyfradd gywiro o 0.24%.

1.4 Er y cafodd 61% o'r ceisiadau am grantiau eu hardystio, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, adroddwyd mai ychydig iawn o bethau o bwys y daethpwyd o hyd iddynt ac eithrio Budd-daliadau Tai a'r Dreth Gyngor a'r Grant Effeithlonrwydd Ysgolion.

**2.0 Ystyriaethau**

2.1 Mae'r sylwadau a wnaed gan PWC fel y manylir arnynt yn nhudalennau 11-17 eu hadroddiad wedi cael eu hystyried yn fanwl a cheir gwybodaeth bellach yn Atodiad 1 i hysbysu'r aelodau am y materion gan gynnwys ychwaneg o fanylion am y materion a oedd yn peri pryder, y modd y digwyddasant, y goblygiadau ariannol ac ym mhle yn yr Awdurdod y digwyddodd hyn.

2.2 Croesawyd yr argymhellion a wnaed gan PWC ac mae Cynllun Gweithredu wedi cael ei lunio i weithredu'r argymhellion sy'n cynnwys:

- Cyfarwyddiadau newydd ynghylch Grantiau fel a ddangosir yn Atodiad 2 ar gyfer yr holl staff cyllid sy'n delio gyda Grantiau a fydd yn darparu cyfarwyddyd clir ynglŷn â'r modd y dylid rhoi ceisiadau am grantiau at ei gilydd a'u hadolygu a'u hardystio.
- Dilyn i fyny materion archwilio penodol gyda Rheolwyr Prosiect a rhoddi cefnogaeth i weithredu systemau monitro trydydd parti petai angen.

- Adolygu'r strwythurau ledjer ar gyfer prosiectau sy'n cael cymorth grant er mwyn sicrhau fod codau categoreiddiad, lle mae hynny'n briodol, yn cael eu defnyddio i nodi gwariant penodol.

- Cyhoeddi Polisi newydd ar gyfer Cadw Dogfennau fel a ddangosir yn Atodiad 3 a fydd yn fodd o sicrhau fod yr holl waith papur gwreiddiol sy'n ymwneud â phrosiectau a gânt gymorth Ewropeaidd yn cael ei wahanu oddi wrth brif system archifo'r Adran Gyllid a'i gadw mewn system ddiogel ar gyfer Grantiau hyd nes y bydd y dyddiad priodol wedi cyrraedd ar gyfer cael gwared arnynt.

- Darparu Rhestr Wirio ar gyfer derbyn Grantiau (Atodiad 4) a fydd yn sicrhau fod yr holl Gynigion Grant yn cael eu cymeradwyo gan y Gwasanaeth sy'n derbyn y grant a'r Swyddog Adran 151 fel y gellir cadw copi o'r holl Delerau ac Amodau Grant yn yr Adran Gyllid. Mae'r Rhestr Wirio ar gyfer derbyn Grantiau wedi cael ei dylunio i ddarparu amrediad o wybodaeth arall a fydd o gymorth i fonitro grantiau.

- Darparu Hyfforddiant Grantiau mewn ymgynghoriad gyda PWC ar gyfer staff sy'n delio gyda grantiau er mwyn atgyfnerthu materion cydymffurfiaeth yn flynyddol.

- Adolygu'r broses ar gyfer ymgeisio am gyllid er mwyn asesu a ddylai'r holl geisiadau am gymorth grant gael eu cymeradwyo gan y Swyddog Adran 151 cyn cael eu cyflwyno.

**Argymhellion**

Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio:

Nodi cynnwys yr Adroddiad.

**GWYBODAETH BELLACH YNGHYLCH SYLWADAU PWC ATODIAD 1**

| Cyf | Enw'r Grant | Sylwadau PWC | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1 | Cymunedau'n Gyntaf – Strategaeth Ymadael Amlwch | Cymeradwywyd taliadau diswyddo o £12,753.26 gan LlC a chawsant eu had-dalu ym Medi 2013, y tu allan i sgôp y cyfnod sy'n cael ei ardystio. Cafwyd cyllid ychwanegol o £12,754 gan LlC ym mis Hydref 2013. | Cafodd y datganiad archwilio am y cyfnod Hydref 12 i Fawrth 13 (cyfanswm o £96,648) ei gyflwyno ar gyfer ei archwilio ym mis Gorffennaf 2013. Ni chymeradwywyd y cais am ddiswyddiad gan LlC hyd Awst 2013. Bu'n rhaid cyflwyno cais ychwanegol am £12,753 ar gyfer y cyllid diswyddo a diwygio'r datganiad i gynnwys y gwariant diswyddo. Cafwyd cyfarwyddyd gan LlC i'w gynnwys yn y datganiad ar gyfer 12-13 er na chafodd ei dalu a'i dderbyn hyd 13-14.<br><br>Mae'r grant hwn wedi dod i ben bellach. |
| 2 | Swyddfa Ganolog Cymunedau'n Gyntaf | Tynnu £12,512.06 sydd wedi'i gynnwys ddwy waith mewn camgymeriad.<br><br>Diwygiad o £349.68 ar gyfer cywiro cyfanswm y gwariant ar draws pob categori. | Cafodd gwariant o £12,512.06 ar gyfer gwaith ymgynghorol ei gynnwys mewn llinell ar gyfer cyllideb cyflogau ac mewn llinell ar wahân ar gyfer cyllideb gwaith ymgynghorol ar y ffurflen hawlio gan or-ddatgan felly gyfanswm y gwariant. Fodd bynnag, ni chafodd hyn effaith ar y grant a haliwyd.<br>Cafodd rhywfaint o wariant ei gynnwys yn y llinell gyllidebol 'Cyhoeddusrwydd a Marchnata' ond pan ddewiswyd y sampl ac archwilio'r anfoneb, roedd yn ymwneud mewn gwirionedd â chyfieithu. Oherwydd bod llinell gyllidebol benodol ar gyfer cyfieithu, bu'n rhaid ail-gategoreiddio'r gwariant.<br><br>Camgymeriad codio yn yr Adran Gyllid oedd hwn; fodd bynnag, nid oedd unrhyw oblygiadau ariannol, cafodd grant o £44,338 ei ddyrannu a'i hawlio.<br><br>Mae'r grant hwn wedi dod i ben bellach. |
| 3 | Cymunedau'n Gyntaf Morawelon | Nid oedd y Bartneriaeth yn gallu darparu anfoneb am un | Gwnaed taliad drwy Ddebyd Uniongyrchol gan Bartneriaeth |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | a Chraidd Lôn Llundain | eitem gwerth £110.23. | Cymunedau'n Gyntaf Morawelon a Lôn Llundain i Southern Electric fel rhan o'u cynllun taliad misol. Ni fedrai'r Bartneriaeth ddod o hyd i'r bil ei hun. Gwariwyd cyfanswm o £111,356 dan y grant.<br><br>Camgymeriad ar ran y Bartneriaeth oedd hwn.<br><br>Mae'r grant hwn wedi dod i ben erbyn hyn. |
| 4 | Cymunedau'n Gyntaf Morawelon a Lôn Llundain (nid craidd) | Canfuwyd bod un eitem gwerth £160 yn anghymwys.<br><br>Roedd gor-ddatganiad o £567.00 yn y rhestr fanwl o gostau'r Gweithiwr Ieuenctid a ddarparwyd gan y Bartneriaeth. | Cafodd £160 ei wario ar Focsys Pethau Da ar gyfer Partïon Nadolig y Plant a drefnwyd dan y Rhaglen Ieuenctid. Er bod PWC o'r farn bod hynny'n beth dymunol i'w wneud, nid oedd o'r farn ei fod yn hanfodol i'r rhaglen ac o'r herwydd, daethpwyd i'r casgliad fod y gwariant yn anghymwys. Fodd bynnag, nid yw LIC wedi ei drin fel gwariant anghymwys ac nid yw wedi hawlio'r arian yn ôl.<br><br>Dangosodd cyfrifon y Bartneriaeth fod £1744.74 yn cael ei dalu mewn cyflogau ond roedd y gwaith papur yn dangos £1177.74, felly gwnaed camgymeriad wrth roi gwybodaeth i mewn yn y cyfrifon. Ni chafodd tynnu'r gor-ddatganiad hwnnw unrhyw effaith ar y grant oherwydd nid oedd y grant o £15,202 a dderbyniwyd yn cwrdd â chostau llawn y Gweithiwr Ieuenctid.<br><br>Camgymeriad ar ran y Bartneriaeth oedd hwn.<br><br>Mae'r grant hwn wedi dod i ben erbyn hyn. |
| 5 | Cymunedau'n Gyntaf Ward Tudur | Gwariwyd ar un eitem gwerth £250 tuag at Ginio Nadolig ar gyfer gwirfoddolwyr y Bartneriaeth. Cafodd dyraniad cyfanswm y gwariant ar draws pob | Talwyd £250 i'r Bull. Canfuwyd mai swm a dalwyd am Ginio Nadolig i'r gwirfoddolwyr oedd hwn er nad oedd hynny'n amlwg o'r cyfrifon hyd oni chafwyd trywydd archwilio llawn. Ym |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | categori ei ddiwygio gan £187.20. | marn PWC, roedd y gwariant hwn yn anghymwys. Fodd bynnag, nid yw LIC wedi ei drin fel gwariant anghymwys ac nid yw wedi hawlio'r arian yn ôl.<br><br>Cafodd £187.20 ei roi yn y golofn anghywir yng nghyfrifon y Bartneriaeth; Costau Teithio staff yn lle Hyfforddiant Staff. Ni chafodd hyn effaith ar y grant ond bu'n rhaid diwygio'r ffurflen.<br><br>Camgymeriad ar ran y Bartneriaeth oedd hwn.<br><br>Mae'r grant hwn wedi dod i ben erbyn hyn. |
| 6 | Trethi Cenedlaethol Annomestig | Nid oedd gostyngiad yn y Gwerth Ardrethol y cafwyd gwybod amdano gan VOA wedi cael ei brosesu. Nodwyd bod y Rheolwyr wrthi'n cysoni cyfanswm y GA yn unol â manylion VOA gyda'r GA yn Northgate.<br><br>Nodwyd camgymeriadau gyda gweithredu Gostyngiad Elusennol Mandadol a Gostyngiad mewn Swm Atodol Dewisol.<br><br>Roedd ceisiadau am daliadau gohiriedig wedi cael eu derbyn a'u cymeradwyo ond nid oedd hynny wedi ei adlewyrchu yn y cais.<br><br>Gwnaed newid i'r cais mewn perthynas addasiad maniwal a wnaed mewn perthynas â Gostyngiad Mandadol ar gyfer Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol. | Methwyd â phrosesu cais y cafwyd gwybod amdano ar 25.4.2012.<br><br>Roedd anghysondeb o ran y modd yr ymdriniwyd â nifer o sefydliadau dielw, cafodd rhai ostyngiadau elusennol ac eraill ostyngiadau dewisol.<br><br>Bu'r staff yn ymgynghori gyda VOA hyd oni fu modd cywiro'r anghysonderau. Mae'r ceisiadau'n cael sylw ar y diwrnod y cânt eu derbyn gan olygu nad oes oedi mwyach. Caiff y gwaith cysoni ei wneud unwaith y mis.<br><br>Camgymeriadau Cyllid oedd y rhain. |
| 7 | Grant Effeithlonrwydd Ysgolion / Grant Amddifadedd Disgyblion 12-13 | Tanwariant o £634.77 mewn Ysgol Uwchradd heb ei ddatgan yn y ffurflen hawlio.<br><br>Nid oedd modd i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth i ddilysu | Nid oedd modd i un o'r ysgolion ddarparu tystiolaeth lawn o wariant ar GAD. Cafodd swm o £634.77 ei gynnwys yn eu cais fel gwariant ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael.<br><br>Cafodd cynnig ar gyfer rhaglen yn costio £2613.60 ei gynnwys |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | fod gwariant o £2613.60 gan ysgol wedi cael ei dalu mewn gwirionedd.<br><br>Cafodd swm o £417,775 ei ddirprwyo'n uniongyrchol i'r ysgol, sy'n 56%, nid 75% sef y trothwy isaf sy'n ofynnol gan LlC.<br><br>Nid oedd modd i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth fod y cynllun gwariant a baratowyd ac a gyflwynwyd i LlC ar gyfer y grant wedi cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan LlC. | yn y ffigyrau gwariant, fodd bynnag, ni fedrai'r ysgol ddarparu anfoneb ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ar y ledjer fod y swm hwn wedi'i dalu mewn gwirionedd.<br><br>Ni fu modd cwrdd â'r lefel ddirprwyo oherwydd cafodd arian ei dalu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod i Cynnal i ddarparu rhai gwasanaethau i'r ysgolion, e.e. hyfforddiant. Ni thalodd yr ysgolion am y gwasanaethau hyn yn uniongyrchol eu hunain, felly chafodd yr arian mo'i ddirprwyo. Mae'r mater hwn wedi cael ei drafod gyda LlC ac nid oes angen iddynt gymryd unrhyw gamau dilynol.<br><br>Cafodd y cynllun gwariant ei gyflwyno i LlC ond nid oedd tystiolaeth ar ffeil ei fod wedi'i gymeradwyo mewn gwirionedd. Efallai y gwnaed y sefyllfa'n waeth yn dilyn nifer o newidiadau staffio yn yr Adran Addysg. Nid oedd y Llythyr o Gynnig gan LlC yn cyfeirio ar y cynllun gwariant yn benodol.<br><br>Cyfanswm gwerth y rhaglen GEY / GAD oedd £1,413,152.<br><br>Roedd Cyllid ac Addysg yn gyfrifol am y camgymeriadau, sef diffyg monitro gwariant ysgolion. |
| 8 | Ffurflen Dychweliad Pensiwn Athrawon | Mae'r ffigwr ar gyfer y cyflog cyfrannol wedi cael ei weithio allan drwy grosio i fyny gyfraniadau'r cyflogwr oherwydd ni fedr y system gyflogres a ddefnyddir gan yr Awdurdod ar hyn o bryd gynhyrchu adroddiadau cyflog cyfrannol i gefnogi'r ffurflen hawlio.<br><br>Mae cyfraniadau 2 allan o 20 o athrawon wedi cael eu gweithio allan gan ddefnyddio'r cyfraddau anghywir. Mae'r ddau achos | Ni fedr y System Northgate ar hyn o bryd gynhyrchu adroddiadau cyflog cyfrannol.<br><br>Cafodd y cyfraddau anghywir eu defnyddio ar gyfer athrawon llanw.<br><br>Camgymeriad yr Adran Gyllid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn ymwneud ag athrawon llawn yr oedd eu cyflogau amser lawn cyfatebol yn seiliedig ar yr amser a gofnodwyd ar eu taflenni amser. | oedd hwn. |
| 9 | SBIG Trosiannol – Ysgol y Bont | Diwygiwyd y cais i wneud i ffwrdd â gwariant anghymwys yn 2011/12. | Gwnaed rhywfaint o waith datblygu yn 11/12 a chafodd cost y gwaith hwnnw ei gynnwys yn y gwariant grant yn 12/13. Cafodd y Cynnig o Grant ei wneud a'i dderbyn ym mis Tachwedd 2011, fodd bynnag, roedd proffil y grant o Ebrill 2012 ymlaen. Dim ond yn ystod yr archwiliad y cafodd y Cynnig o Grant ei ddarparu gan yr Adran Addysg ond nid oedd unrhyw waith papur ar gael i ddangos fod LlC wedi cytuno i'r gwariant yn 11/12 gael ei gynnwys. Byddai LlC wedi bod yn fodlon derbyn gwariant 11/12 fel cyllid cyfatebol gan yr Awdurdod ond nid oedd yn fodlon talu grant yn ei erbyn.<br><br>O'r grant o £4,601,547 a hawliwyd, tybiwyd mai dim ond £4,471,242 ohono oedd yn gymwys a hawliwyd £30,305 yn ôl gan LlC.<br><br>Camgymeriad gan yr Adran Addysg oedd hwn. Dylai Gwasanaethau sicrhau fod Cyllid bob amser yn cael copi o Delerau ac Amodau Grantiau. |
| 10 | Grant Cymraeg mewn Addysg | Dywed Cyfarwyddiadau Ardystio na ddylid defnyddio GCA i gaffael TGCh neu gostau cysylltedd. Dangosodd profion fod £2,937 yn ymwneud ag offer TGCh. Roedd hyn yn gysylltiedig â phrosiectau Canlyniadau 2 yr oedd yr Awdurdod wedi dyrannu £17,000 ar eu cyfer. Gwariwyd £18,949. | Prynodd un ysgol IPads fel adnodd dysgu a chanfuwyd bod y rhain yn anghymwys. Gallai hyn o bosib arwain ar hawlio'n ôl swm o £988 yn erbyn grant o £165,700.<br><br>Camgymeriad a wnaeth yr ysgol oedd hwn, sef prynu offer TG.<br><br>Gofynnwyd i ysgolion gael caniatâd yn uniongyrchol gan yr Adran Addysg cyn prynu unrhyw beth sy'n gysylltiedig â TG gydag arian grant. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Dechrau'n Deg | Diwygiad o £1,234 o ran cywiro dyraniad y gwariant yn ei gyfanrwydd ar draws bob categori. | Cafodd £1,233.51 o gostau mewn perthynas â 'Costau Staffio: Datblygu Iaith Cynnar (ELD)' eu cofnodi mewn gwirionedd fel 'Costau Staffio: Tîm Craidd Dechrau'n Deg'. Mae nifer o staff yn gweithio ar Dechrau'n Deg ac roedd cyflog mis gweithiwr 'ELD' wedi cael ei godio yn erbyn 'Staff Craidd' mewn camgymeriad.<br><br>Nid oedd unrhyw oblygiadau ariannol i'r grant. Cafodd grant o £632.777 ei hawlio.<br><br>Camgymeriad yr Adran Gyllid oedd hwn mewn perthynas â chategoreiddo gwariant ar y ledjer. |
| 12 | Teuluoedd yn Gyntaf | Diffyg gweithdrefnau digonol i fonitro trydydd partïon<br><br>Diwygiad o £3,255 i dynnu gwariant anghymwys yn 2013/14. | Cymerodd y cyn-Swyddog Monitro Teuluoedd yn Gyntaf drosodd y rôl o Rheolydd Rhaglen Gwynedd/Môn yn ystod 2012/13 dan y trefniadau Partneriaeth newydd. Bu swydd y Swyddog Monitro yn wag am y rhan fwyaf o'r flwyddyn gan olygu na fu unrhyw ymweliadau monitro â Sefydliadau Darparu Partneriaethol.<br><br>Cafodd croniad credydwyr ei godi ar gyfer hyfforddiant yn 2012/13, fodd bynnag, wedi edrych ar ba bryd y talwyd yr anfonebau mewn gwirionedd, roeddynt yn ymwneud â hyfforddiant yn 13/14 felly ni ddylent fod wedi cronni oherwydd nad oedd y gwasanaeth wedi'i dderbyn. Cafodd gwariant cymwys ei ostwng o £770,545 i £767.290 i gymryd hyn i ystyriaeth.<br><br>Camgymeriad ar ran y Bartneriaeth oedd hwn ac mae wedi ei gydnabod gan y rheolwyr. Mae swydd y Swyddog Monitro bellach wedi'i llenwi ac mae ymweliadau monitro wedi cael eu cynnal. Ni ddylid gofyn am groniad credydwyr mewn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | achosion lle nad yw'r nwyddau neu'r gwasanaethau wedi eu derbyn. |
| 13 | Cronfa Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau | Diwygiad o £553 er mwyn cywiro dyraniad y gwariant cyfan ar draws pob categori. | Cafodd £20K ei neilltuo'n benodol ar gyfer gweithgaredd penodol. Gwariodd yr Awdurdod £20,553 a chafodd y swm ei gynnwys ar y Datganiad ar gyfer ei Archwilio. Bu'n rhaid newid y ffurflen i ailddyrannu'r gorwariant i'r cyllid grant generig. Ni chafodd hyn effaith ar y grant o £510,752.<br><br>Camgymeriad a wnaed gan yr Adran Gyllid ar adeg llenwi'r ffurflen oedd hwn. |
| 14 | Ailsefydlu Anableddau Dysgu | Nid oedd modd i'r Cyngor ddarparu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda darparwr trydydd parti. | Roedd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol Gytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Eiriolaeth ond nid oedd modd darparu copi wedi'i lofnodi.<br><br>Caiff cyfran o gyflogau 4 Gweithiwr Cymdeithasol eu talu allan o'r grant gyda'r un gyfradd ganrannol yn cael ei defnyddio bob blwyddyn. Codwyd yr un mater yn 2011/12 a dywedwyd wrth y Rheolydd Prosiect y dylai'r Gweithwyr Cymdeithasol gadw taflenni amser fel tystiolaeth o'r gyfran a dalwyd. Fodd bynnag, penderfynodd y Gwasanaethau Cymdeithasol beidio â chadw taflenni amser.<br><br>Nid oedd unrhyw oblygiadau ariannol oherwydd nid yw LlC erioed wedi ystyried diffyg taflenni amser fel problem Cafwyd y grant llawn o £976,481.<br><br>Camgymeriad ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd hwn oherwydd dylai tystiolaeth o gyfran amser y staff fod wedi bod ar gael ar daflen amser.<br><br>Nid yw'r grant hwn mwyach yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cael ei archwilio gan archwilydd allanol. |
| 15 | Ardaloedd Adfywi Strategol – Grant Eiddo ac Amgylchedd (GEA) 11-12 a 12-13 | Nid oedd modd nodi 3 o'r 6 chynllun yn 11/12 yn y Gofrestr Asedau oherwydd roedd prosiectau wedi cael eu cynnwys fel rhan o gynlluniau mwy heb unrhyw drywydd archwilio i ddangos pa gynlluniau yr oeddynt yn rhan ohonynt. | Nid oedd y Papurau Gwaith ar gyfer y Gofrestr Asedau yn 11/12 yn caniatáu ar gyfer tracio eitemau bychan unigol o wariant cyfalaf ar GEA drwodd i eitem benodol ar y Gofrestr Asedau.<br><br>Roedd y Papurau Gwaith ar gyfer y Gofrestr Asedau yn fanwl yn12/13 ac ni chododd y mater hwn.<br><br>Camgymeriad yr Adran Gyllid oedd hwn wrth fynd ati i roi at ei gilydd y papurau gwaith i gefnogi'r Gofrestr Asedau. |
| 16 | Grant Consortia Cludiant Lleol | Roedd yr Awdurdod yn gallu darparu tystiolaeth o swm y grant a roddwyd i'r Consortiwm ond ni fedrai ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r dyraniadau i bob Awdurdod ac o'r herwydd, nid oedd modd cytuno ar ffigwr y dyraniad cyfan yn y datganiad ar y canlyniadau. | Ni fedrai Cyngor Sir Y Fflint, sef Partner Arweiniol y Consortiwm, ddarparu ar gyfer yr Awdurdod y dystiolaeth yr oedd PWC ei gangen i ddangos y dyraniadau unigol o Gyfalaf GCC, Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd a Refeniw Diogelwch y Ffyrdd o fewn y grant cyfan a roddwyd i'r Consortiwm. Mewn gwirionedd, cafwyd y wybodaeth hon yn uniongyrchol gan LlC yn dilyn yr archwiliad.<br><br>Camgymeriad ar ran Cyngor Sir Y Fflint oedd hwn oherwydd nad oedd modd iddynt ddarparu tystiolaeth. |
| 17 | Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy | Cafodd gwariant anghymwys o £27,944 ei nodi mewn perthynas â chael gwared ar wastraff. Nodwyd ychwaneg o wariant anghymwys yn ystod archwiliad mewnol o ad-daliadau mewn perthynas â'r fflyd fewnol, sef swm o £2,244.21.<br><br>Nid yw'r gwariant anghymwys yn cael effaith ar y grant oherwydd roedd £422,471 o orwariant. | Mae'r Grant Gwastraff yn gyfraniad tuag at gostau Rheoli Gwastraff. Cyfarfyddir â'r balans o gyllidebau craidd. Mae'r canolfannau cost perthnasol yn cwrdd ag unrhyw wariant sy'n mynd uwchlaw'r hyn a gyllidir gan y grant ond nid yw gwariant penodol wedi cael ei ddyrannu i'r grant yn y gorffennol. Pan gafodd y sampl gwreiddiol ei ddewis, gwelwyd eitem gwerth £27,944 ar gyfer leininau gwastraff bwyd a thybiwyd ei bod yn anghymwys, yr un modd, nid oedd yn bosibl olrhain ad- |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | daliadau mewn perthynas â'r fflyd gerbydau yn ôl i'r grant.<br><br>Nid oedd unrhyw oblygiadau ariannol gyda'r grant o £1,863,794 yn cael ei gadw yn yr Awdurdod.<br><br>Camgymeriad ar ran yr Adran Gyllid oedd hwn am ganiatáu prawf ar y gwariant cyfan. |
| 18 | Cymhorthdal CRT | Roedd y swm a dalwyd gan yr Awdurdod ar y ffurflen hawlio grant yn £1,885,950 ond yn ôl y cofnodiadau cysylltiedig, roedd y swm oedd £1,885,975, sef gwahaniaeth o £25.<br><br>Dylid defnyddio'r gofyniad cyllido cyfalaf agoriadol fel sylfaen i weithio allan 'cell 0385' yn hytrach na'r gofyniad cyllido cyfalaf agoriadol y cymhorthdal.<br><br>Gwnaed nifer o newidiadau oherwydd gwerthoedd anghywir yn y gwaith papur ac yn ffurflen hawlio'r flwyddyn flaenorol. | Taliadau ar y cyfrif wedi eu tan-ddatgan gan £25.<br><br>Nid oedd yn glir o'r canllawiau a ddylid defnyddio cyfanswm nifer yr anheddau ar gyfartaledd mewn blwyddyn ynteu gyfanswm nifer yr anheddau yn y CRT ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Camgymeriad ar ran yr Adran Gyllid oedd hwn ac roedd yn ymwneud â'r dehongliad o'r canllawiau a safon y gwaith papur cefnogol. |
| 19 | Llwybrau Dysgu | Roedd CLG ar gael ar gyfer y 3 sefydliad Partner, fodd bynnag, roedd arian wedi ei wario mewn perthynas ag un partner cyn llofnodi'r CLG.<br><br>Gwnaed newid o ran capio swm y gwariant cymwys i adlewyrchu'r dyraniad grant. | Sefydlwyd CLG rhwng yr Awdurdod a thri o Sefydliadau Darparu sef Cynnal, Coleg Menai a Gyrfa Cymru. Cafodd un o'r CLG ei lofnodi a'i ddyddio ar ôl i'r awdurdod wario ar yr eitem gyntaf.<br>Cafwyd tanwariant o £1 ar weithgareddau cyfrwng Cymraeg a 0.72c ar y prif refeniw a gafodd ei drosglwyddo i'r Fforwm Cyfrwng Cymraeg. Roedd y gorwariant felly'n £2.61 i gyd. Ni chaniatawyd y tanwariant o £1 a chafodd y gwariant cymwys ar y Fforwm Cyfrwng Cymraeg ei gapio. Ni chafodd hyn effaith ar y grant o £613,299.<br><br>Roedd yr Adrannau Addysg a Chyllid yn gyfrifol am y camgymeriadau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 20 | Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol | Yn ystod y profion, gwelwyd gwahaniaeth o £3 ar swm anfoneb a'r swm ar y ledjer. Roedd gwariant yr Awdurdod yn £313,752.53 ac o'r herwydd yn uwch na'r gwariant grant a gymeradwywyd sef £309,710. | Pan gyhoeddwyd y datganiad archwilio, gwelwyd croniad o £1,950. Nid oedd yr anfoneb wedi cael ei thalu a chymeradwywyd yr anfoneb ar gyfer ei thalu yn ystod yr archwiliad, swm o £1,947. Nid oedd unrhyw effaith ariannol.<br><br>Camgymeriad oedd hwn ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol am na chafodd yr anfoneb ei phasio ar gyfer ei thalu ac am beidio datrys y materion a oedd yn parhau i fod angen sylw gyda'r cyflenwr. |
| 21 | Datblygu Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn | Roedd eitemau o wariant na chafodd eu talu tan ar ôl y cyfnod hawlio wedi cael eu cynnwys yn y swm a hawliwyd. | Roedd y taliadau'n ymwneud â thaliad siec o £62.50 na chafodd ei ddanfon i'r banc a thaliad siec pellach o £354.11 na chafodd ei glirio drwy'r banc hyd 8/10/13 a hynny'r tu allan i gyfnod yr hawliad a ddaeth i ben ar 30/9/13.<br><br>Camgymeriad yr Adran Gyllid oedd hwn oherwydd dylent siecio'r holl ddyddiadau ad-dalu cyn eu cynnwys yn yr hawliadau. Cafodd y ddwy eitem hyn eu tynnu o'r hawliad am £205,276. |
| 22 | SEG 11-12 | Roedd gwariant LAC o £16,348 islaw'r isafswm o £19,351.<br><br>Amcanbrisiau oedd y canrannau gwariant ar gyfer Llythrennedd, Rhifedd a Thlodi, felly nid oedd modd penderfynu a oedd y symiau a ddangoswyd fel gwariant yn erbyn bob blaenoriaeth ar y ffurflen hawlio yn gywir.<br><br>Nid oedd yr Awdurdod yn gallu profi bod y cyllid a ddirprwywyd i'r ysgolion wedi cael ei wario i'r pwrpas y cafodd ei ddyrannu ar ei gyfer. | Talodd yr arian LAC am aelod o staff, gadawodd yr aelod o staff gwreiddiol y swydd a bu'n rhaid ailbenodi i'r swydd gyda hynny'n arwain at danwariant.<br><br>Nid oedd modd torri'r gwariant ar y lejer i lawr i'r tair blaenoriaeth ac roedd nifer o'r elfennau wedi cael eu cyfuno.<br><br>Nid oedd gwariant yr ysgolion mewn perthynas â'r grant yn cael ei fonitro. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o'r modd yr oedd yr ysgol wedi gwario'r arian. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Nid oedd yr Awdurdod yn gallu dangos tystiolaeth bod yr arian a ddatganolwyd i bartneriaid cydweithio wedi cael ei wario i'r pwrpasau y dyrannwyd ef ar eu cyfer.<br><br>Dirprwywyd 70% o'r cyllid i'r ysgolion – canran is na'r lefel ofynnol o 75%.<br><br>Dim yn gallu penderfynu ar gymhwysedd 10 allan o 25 eitem, cyfanswm o £121,658.22 oherwydd diffyg gwybodaeth i gadarnhau natur y gwariant.<br><br>Methu penderfynu ar gategoreiddiad cywir 22 allan o 25 o eitemau.<br><br>Methu penderfynu ar y dosraniad yn yr hawliad ar gyfer 10/25 eitem, cyfanswm o £103,810.33. Nid oedd yr Awdurdod wedi rhoi rhesymau digonol am y dull dosrannu a fabwysiadwyd. | Rhoddwyd £3,500 i Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf Plas Cybi i gyflawni prosiect yn yr ysgolion ond nid aethpwyd ati i fonitro'r modd yr oedd yr arian wedi cael ei wario.<br><br>Talodd yr Awdurdod yn ganolog am y gwasanaethau a ddarparwyd gan Cynnal yn hytrach na dirprwyo'r arian i'r ysgolion.<br><br>Nid oedd modd neilltuo'r anfonebau'n benodol i Lythrennedd, Rhifedd neu Dlodi oherwydd roedd llawer o'r gwariant wedi cael ei gyfuno ac o'r herwydd, nid oedd modd profi a oedd yn wariant cymwys.<br><br>Fel yr uchod.<br><br>Lle yr oedd anfonebau'n cynnwys gwariant ar y cyfan o'r blaenoriaethau, roeddynt yn cael eu dosrannu ar draws pob un o'r blaenoriaethau yn seiliedig ar gyfradd a oedd, ym marn yr Adran Addysg, yn rhesymol, ond nid oedd hyn yn dderbyniol gan PWC.<br><br>Cyfanswm y grant a hawliwyd oedd £718,552. Y goblygiadau ariannol oedd adfer grant o £3,003 ar danwariant LAC.<br><br>Camgymeriad ar ran yr Adrannau Cyllid ac Addysg am beidio monitro'r arian a ddirprwywyd i ysgolion gwariant gan drydydd partïon a chategoreiddio gwariant yn anghywir. |
| 23 | LIF Gogledd Orllewin Cymru 11-12 | Yn achos dwy anfoneb yn y sampl, nid oedd modd darparu anfonebau gwreiddiol, er bod copïau heb eu hardystio ar gael. | Nid oedd modd dod o hyd i'r anfonebau gwreiddiol a oedd wedi ei storio ar safle Ysgol y Graig oherwydd cyflwr gwael y cyfleusterau storio. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cafodd costau staffio o £10759.12 eu talu yn 2011 a'u hawlio yn 2012.<br><br>Roedd un contract a osodwyd yn cydymffurfio gyda Phrotocol LIF GOC ond nid â rheolau caffael mewnol yr awdurdod. Cafodd yr Awdurdod 3 dyfynbris ond nid aeth drwy'r broses dendro yn llawn.<br><br>Anfonwyd yr hawliad yn hwyr. | Caiff cyflogau a chostau eraill y Rheolydd Prosiect (costau rhanbarthol) eu cyllido'n gyfartal rhwng y 4 partner a'u hanfonebu chwarter ar ei hôl hi. Caiff y gwariant ei gynnwys yn yr hawliad ar ôl i'r partneriaid dderbyn yr anfoneb a'i thalu. Dim ond unwaith y cafodd ei hawlio.<br><br>Mae hyn yn cyfeirio ar arferion caffael y sawl sy'n derbyn grantiau. Rhaid iddynt gael 3 dyfynbris cyn prynu. Nid yw'r rheoliadau caffael sy'n cael eu gweithredu gan y partner sy'n rhoi'r grant LIF wedi cael eu hymestyn i'r sawl sy'n derbyn y grantiau. Yn ôl rheoliadau SCEC, y cyfan y mae'n rhaid i awdurdodau nad ydynt yn contractio ei wneud yw defnyddio arferion teg ac agored.<br><br>Hawliwyd £2,172,872.80<br><br>Camgymeriad ar ran yr Adran Gyllid mewn perthynas â chadw'r dogfennau ariannol gwreiddiol. |
| 24 | Safleoedd ac Eiddo Isadeiledd Strategol 11-12 | Talwyd £74,379 ymlaen llaw am wasanaeth nad oedd wedi ei ddarparu heb unrhyw arwydd o gwbl pryd y byddai'n cael ei ddarparu ac a fedrai hynny ddigwydd wedi i'r prosiect ddod i ben.<br><br>Anfonwyd y ffurflen hawlio yn hwyr. | Gwnaed taliad i SP Manweb i dynnu ac ail-leoli'r is-orsaf drydan o Safle Penyrorsedd. Roedd y taliad wedi ei wneud a'i hawlio ond ar adeg yr archwiliad, nid oedd y gwaith wedi'i gwblhau. Nid oedd modd cadarnhau dyddiad cwblhau oherwydd roedd trafodaethu'n parhau i fynd rhagddynt gyda SP Manweb.<br><br>Cafodd y swm ei dalu o'r hawliad o £705,719 a'i hawlio unwaith eto pan gafodd y gwaith ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2014.<br><br>Camgymeriad gan yr Adran Gyllid o ran llunio barn ynghylch a fyddai modd cwblhau'r gwaith o fewn oes y prosiect. |
| 25 | Cymhorthdal Budd-dal Tai a'r Dreth Gyngor 11- | Nodwyd nifer o faterion yn ystod 11-12 a 12-13 ac maent yn cael eu trafod gyda | Mae problemau'n parhau gyda chywirdeb hawliadau BT a TG sy'n mynd yn ôl nifer o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 12 & 12-13 | Staff Budd-daliadau Tai. | flynyddoedd. Daethpwyd â staff i mewn i ddelio gyda'r broses ac mae'r gweithdrefnau wedi gwella.<br><br>Camgymeriad ar ran yr Adran Gyllid. |

# CYFARWYDDIADAU AR GYFER YMGEISIO AM GRANT

## 1 RHAGARWEINIAD

1.1 Yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am ardystio ceisiadau am grant ac mae'n hollbwysig dilyn proses i sicrhau bod ceisiadau am grant yn cael eu llunio'n gywir. Mae'r wybodaeth a ganlyn yn amlinellu'r broses y bydd raid ei dilyn i gwblhau, adolygu ac awdurdodi unrhyw gais am grant neu gymhorthdal.

1.2 Mae Adran Gyllid yn cynnal Cofrestr Ganolog o Grantiau. Gellir ei gweld yn *G:\FINANCE\ FINSVCS\LOTSHARE\GrtContr\Grants Monitoring Database\14-15.* Dylai'r cyfrifwyr sy'n gyfrifol am y grant ddiweddaru'r gofrestr gyda manylion y grant a'r ceisiadau.

## 2. Y FFEIL AR GYFER CEISIADAU AM GRANT

2.1 Dylid cadw lefel ddigonol o wybodaeth ar ffeil prosiect bob amser fel bod modd i unrhyw un wirio'r wybodaeth yn y ceisiadau. Dylid marcio'r dyddiad difa ar y ffeil. Mae nifer o gyrff grantiau'n dweud yn awr na ddylid difa'r dogfennau gwreiddiol hyd nes y bydd yr Awdurdod wedi cael gwybod ei bod yn ddiogel i wneud hynny. Dylid nodi hyn ar y ffeil a chadw cofnod archif o ffeiliau fel bod modd eu difa ar yr adeg briodol. Dylid rhoi'r marc 'Swyddogol - Sensitif' ar y ffeil i'w diogelu.

2.2 Os gwneir cais am arian o Ewrop neu o'r Cynllun Datblygu Gwledig dylid tynnu'r anfonebau gwreiddiol o'r system Gredydwyr ar ôl eu sganio i mewn i CIVICA a'u cadw ar y Ffeiliau Prosiect oherwydd nad yw copïau ardystiedig o ddogfennau gwreiddiol a sganiwyd yn ddigonol i bwrpas tystiolaeth archwilio.

2.3 Dylid cynhyrchu a chadw cyfarwyddiadau grant ar wahân ar ffeil y prosiect, gan ddwyn sylw at unrhyw faterion cydymffurfiaeth anarferol, enw person cyswllt o fewn y gwasanaeth, canolfannau cost, amserlen ar gyfer ceisiadau a dyddiadau cau eraill fel bod modd i unrhyw un fedru delio â chais am grant os bydd aelodau eraill o staff yn absennol.

2.4 Ar gyfer y grantiau hynny y mae angen eu harchwilio'n allanol dylai ffeil prosiect ffeil safonol gynnwys yr isod:

- Y cais neu gynllun gwariant a gymeradwywyd.
- Y Llythyr Cynnig wedi ei arwyddo.
- Copïau o anfonebau, nodiadau credyd a slipiau tâl.
- Taflenni amser os yw amser staff wedi ei neilltuo, wedi eu harwyddo gan y Swyddog a'r Rheolydd Llinell.
- Y rhesymeg y tu ôl i unrhyw ddosraniad arall e.e. gorbenion
- Tystiolaeth o wariant gan drydydd parti (os yn berthnasol)
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth Trydydd Parti neu Gynigion Grant wedi eu harwyddo a'u dyddio (os yn berthnasol).
- Manylion am unrhyw incwm a gynhyrchwyd (os yn berthnasol).
- Dogfennaeth ar gyfer y cais gan gynnwys allbrintiau o'r lejer a chysoniadau diwedd blwyddyn gyda'r lejer.

- Manylion am unrhyw ddyfynbrisiau neu gontractau a ddyfarnwyd i ddangos bod y broses gaffael wedi ei dilyn.
- Manylion am unrhyw gyhoeddusrwydd a gynhyrchwyd, ffotograffau o weithgareddau/asedau a greuwyd, ffotograffau cyn ac ar ôl
- Cofrestr Asedau (os yn berthnasol)
- Nodiadau tâl.
- Datganiadau banc sy'n dangos yr incwm a dderbyniwyd
- Manylion am godi tâl yn fewnol a thystiolaeth gefnogol i ddangos bod y tâl a godwyd yn deg h.y. wedi ei godi ar yr un sail ar gyfer gweithgareddau a gyllidir gyda grant â gweithgareddau nad ydynt yn cael eu cyllido gyda grant.

## 3. LLUNIO'R CAIS

3.1 Rhaid i'r Swyddog Adran 151 neu'r Dirprwy Swyddog Adran 151 arwyddo ceisiadau a ffurflenni yn y rhan fwyaf o'r achosion. Efallai y bydd angen dau lofnod ar gyfer rhai ceisiadau a gallai hynny fod y Rheolydd Prosiect, y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfrifydd Gwasanaeth. Yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am lunio'r cais yn gywir.

3.2 Gall y cais gynnwys gwybodaeth o'r ffynonellau a ganlyn:

- Gwybodaeth ariannol sydd wedi ei chofnodi yn y lejer.
- Gwybodaeth ariannol sydd wedi ei chofnodi mewn systemau adrannol neu systemau trydydd parti e.e. Budd-daliadau Tai.
- Gwybodaeth anariannol fel cyflawni yn erbyn cerrig milltir, allbynnau ac ati a ddarperir fel arfer gan y Rheolydd Prosiect.

3.3 Rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir yn y cais gael ei gwirio a'i chytuno gan y Cyfrifydd sy'n llunio'r cais a'r Rheolydd Prosiect yn y Gwasanaeth. Ar ôl ei gwblhau dylid adolygu'r cais yn annibynnol cyn ei ardystio. Dylid cwblhau Rhestr Wirio (Atodiad A) ar gyfer pob cais am grant neu gymhorthdal.

3.4 Rhaid cwblhau dogfennaeth i gefnogi'r cais a rhaid cysoni'n ôl i'r lejer. Bydd lefel y wybodaeth gefnogol sydd raid wrthi ar gyfer pob cais yn amrywio. Bydd rhai cyrff cyllido yn dymuno gweld copïau o anfonebau ond ni fydd angen unrhyw wybodaeth gefnogol gyda cheisiadau eraill. Dylai'r wybodaeth gefnogol fod yn ddigon i ganiatáu i'r Cyfrifydd sy'n adolygu wirio'r cais. Dylai gynnwys nodiadau ar sut i gwblhau'r cais, copi o'r Llythyr Cynnig a gwybodaeth am geisiadau blaenorol. Yn aml gall croesgyfeirio'r dogfennau cefnogol gyda'r cais symleiddio a chyflymu'r broses.

3.5 Weithiau bydd angen ceisiadau interim neu amcangyfrifedig sy'n seiliedig ar y gwariant a ragwelir. Pan fydd y cais terfynol sy'n seiliedig ar y gwariant gwirioneddol yn cael ei gyflwyno dylid ymchwilio i unrhyw wahaniaethau ac ymhelaethu arnynt yn y papurau cefnogol.

3.6 Yn gyffredinol, y gwariant sydd wedi ei gynnwys yn y cais ddylai fod y gwariant sy'n dangos ar y lejer. Mewn amgylchiadau eithriadol gall ceisiadau gynnwys swm ar gyfer anfonebau sydd wedi dod i law ond sydd heb eu sganio i mewn i CIVICA ac nad ydynt felly yn ymddangos ar y lejer. Ni ddylid ond gwneud hyn pan fo'n dderbyniol gan y corff cyllido a phan fo gwariant gwirioneddol yn sylweddol is na'r

proffil targed ar ei gyfer. Os gwneir hyn mae'n rhaid monitro'n ofalus i sicrhau nad yw gwariant yn cael ei hawlio eto yn y cais dilynol.

3.7 Pan gyflwynir y cais am grant neu gymhorthdal i'r Adolygydd dylid caniatáu o leiaf 3 diwrnod gwaith i adolygu a diwygio'r cais os oes angen.

## 4. ADOLYGU CEISIADAU

4.1 Rhaid adolygu'r holl geisiadau cyn eu hardystio. Gall yr Adolygydd fod yn Rheolydd Cyfrifeg, Cyfrifydd Gwasanaeth neu Reolydd Grantiau. Os yw'r cyfan o'r cais wedi ei gwblhau gan staff y tu allan i'r Adran Gyllid rhaid i'r Cyfrifydd Gwasanaeth gynnal gwiriad cychwynnol cyn i'r Rheolydd Cyfrifeg ei adolygu.

4.2 Mae'r Adolygydd yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod y cais wedi ei gwblhau yn unol ag amodau'r grant.
- Sicrhau bod y ffurflen wedi ei chwblhau'n gywir a bod y ffigyrau yn gywir ac yn gyson gyda'r lejer.
- Cynnal gwiriadau o samplau er mwyn sicrhau bod y ffurflen wedi ei chwblhau'n gywir.

4.3 Dylai'r Adolygydd gwblhau rhan B o'r Rhestr Wirio ar gyfer Cais Grant gan nodi'r gwiriadau a wnaed ac unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud. Os bydd angen gwneud newidiadau dylid dychwelyd y cais i'r Cyfrifydd sy'n ei baratoi ar gyfer ei ddiwygio.

4.4 Os yw'r Adolygydd yn fodlon bod y cais wedi ei gwblhau'n gywir dylid arwyddo'r Rhestr Wirio a'i dyddio a chyflwyno'r cais ar gyfer ei ardystio.

## 5. ARDYSTIO CEISIADAU

5.1 Fel arfer y Prif Swyddog Ariannol fydd yn ardystio'r ceisiadau, sef y Swyddog Adran 151 neu, fel arall, y Dirprwy Swyddog Adran 151.

5.2 Dylai'r Swyddog Ardystio dderbyn y cais a'r holl waith papur cefnogol o leiaf ddau ddiwrnod cyn y bydd raid ei gyflwyno.

5.3 Dylai'r Swyddog Ardystio sicrhau bod y broses wedi ei dilyn a bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi eu gwneud.

5.4 Dylid ychwanegu dyddiad ardystio'r cais at y rhestr wirio.

## 6. ARDYSTIO CEISIADAU DIWEDD BLWYDDYN AR GYFER ARCHWILIAD ALLANOL

6.1 Mae angen archwiliad allanol ar gyfer nifer o grantiau. Bydd y gofynion archwilio wedi eu hamlinellu yn y Llythyr Cynnig gwreiddiol.

6.2 Yn dilyn cyflwyno'r cais terfynol bydd datganiad o wariant diwedd blwyddyn yn cael ei lunio gan y Cyfrifydd Gwasanaeth i'w gyflwyno i archwilwyr allanol yr Awdurdod. Bydd y datganiad yn seiliedig ar y cofnodion yn y lejer ar gyfer y flwyddyn a bydd yn dweud a oes arian yn ddyledus i'r Awdurdod o ganlyniad i dan-hawlio ynteu a oes arian yn ddyledus i'r corff cyllido o ganlyniad i or-hawlio.

6.3 Mae’n rhoi sylw penodol i groniadau credydwyr er mwyn sicrhau:

(i) Eu bod wedi eu talu mewn gwirionedd ac y gellid felly eu cynnwys yn y cais os yw’r grant yn gweithredu ar sail croniadau.

(ii) Bod yr anfoneb a dalwyd yn erbyn y croniad yn cyfateb i swm y croniad gwreiddiol.

6.4 Dylid paratoi ceisiadau ar gyfer eu harchwilio yn yr un ffordd â cheisiadau interim ond dylid cyflwyno cysoniad lejer llawn yn manylu ar y trafodion canolfan gost i PWC fel rhan o’r gwaith papur ar gyfer yr archwiliad. Bydd hyn yn caniatáu iddynt ddewis eu sampl cyn iddynt gyrraedd yma.

6.5 Pan fo’r gwariant yn uwch na’r gwariant grant a gymeradwywyd fel y manylwyd yn y Llythyr Cynnig, dylid egluro ar y lejer pa drafodion y dylid eu cynnwys ar gyfer rhoi prawf arnynt a pha raid na ddylid eu cynnwys.

6.6 Dylid trosglwyddo’r cysoniad lejer a’r copi gwreiddiol llofnodedig o’r datganiad ar gyfer ei archwilio i’r Rheolydd Grantiau i’w cyflwyno i’r Archwilwyr a dylid cadw copi ar y Ffeil Prosiect.

6.7 Ar gyfer y rhan fwyaf o’r grantiau mae gan archwilwyr oddeutu 3 mis i ardystio’r Datganiad. Cytunir ar amserlen o waith archwilio rhwng yr archwilwyr a’r Rheolydd Grantiau a hysbysir y Cyfrifydd a’r Rheolydd Prosiect i sicrhau eu bod ar gael yn ystod yr archwiliad. Bydd y rhan fwyaf o’r archwiliadau ar gyfer grantiau yn cymryd 1-2 wythnos. Mae hyn yn dibynnu ar nifer y cwestiynau a fydd gan yr archwiliwr a pha mor gyflym y gellir delio â hwy. Dylid medru delio â’r rhan fwyaf o ymholiadau archwilio cyn pen 2-3 diwrnod gwaith.

6.8 Bydd yr archwiliad yn edrych ar nifer o elfennau sy’n ymwneud â rheoli’r cyllid grant yn unol â’r Cyfarwyddiadau Ardystio(CA) a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gellir gweld CA cyfredol yn G:\FINANCE\FINSVCS\LOTSHARE\Certification Instructions\2013-14.

6.9 Gellir cyfyngu cost yr archwiliad a’r amser a gymerwyd trwy sicrhau bod yr holl ddogfennau cefnogol ar gael i’r archwilydd yn y ffeil prosiect fel y cyfeirir at hynny yn 2.4 uchod.

6.10 Ar ôl cwblhau’r archwiliad cyhoeddir Datganiad ardystiedig. Bydd unrhyw feysydd lle na chydymffurfiwyd â thelerau ac amodau’r grant yn arwain at adroddiad archwilio wedi ei amodi. Dylai’r Rheolydd prosiect roi sylw i bwyntiau amodi o’r fath gyda chefnogaeth y Rheolydd Grantiau os oes angen, er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw ar gyfer y dyfodol. Gall barn archwilio amodol flwyddyn ar ôl blwyddyn arwain at golli cyllid grant.

**ATODIAD A**

## RHESTR WIRIO AR GYFER CAIS GRANT

**TEITL Y CAIS** ________________________________________**BLWYDDYN**____________

**ADRAN**____________________________________________________________________

**CYFRIFYDD GWASANAETH**___________________________________________________

**SWYDDOG(ION) CYSWLLT ADRANNOL**__________________________________________

**DYDDIAD CAU AR GYFER CYFLWYNO'R CAIS**__________________________________________

**A OES UNRHYW GEISIADAU INTERIM/AMCANGYFRIFEDIG WEDI EU CYFLWYNO EISOES (Oes/Na)**________________

---

**I'w gwblhau gan y sawl sy'n paratoi'r Cais Grant**

**Enw'r sawl sy'n Paratoi**_____________________________________

1. Oes tystiolaeth i gefnogi'r holl sicrwydd sydd raid wrtho ar gyfer y datganiad ardystio?

   Dyddiad cwblhau_________________________ Llofnod___________________________

2. A gafwyd tystiolaeth o'r holl wybodaeth anariannol?

   Dyddiad cwblhau_________________________ Llofnod___________________________

3. Ydi'r cais wedi ei gwblhau a'i gytuno rhwng yr Adran Gyllid a'r Adran berthnasol?

   Dyddiad cwblhau_________________________ Llofnod___________________________

4. Oes unrhyw wariant wedi ei gynnwys nad yw ar CIVICA hyd yma? Oes/Nac oes

   Dyddiad trosglwyddo'r cais i'r Adolygydd________________________

---

**I'w gwblhau gan yr Adolygydd**

**Enw'r Adolygydd**____________________________________

1. Manylion y gwiriadau a wnaed

   Dyddiad derbyn Papurau Gweithio__________________________ Llofnod___________________

   Dyddiad Gwirio'r Cais____________________________________ Llofnod___________________

2. Oedd angen cywiro'r cais ar ôl ei adolygu? Oedd/Nac oedd

   Dyddiad cwblhau'r newid___________________________

   Y sawl sy'n paratoi________________________ Adolygydd______________________________

3. Dyddiad cyflwyno ar gyfer Ardystiad_________________________

---

Dyddiad ardystio'r cais______________________________ Ardystiwyd gan_____________________

Dyddiad cyflwyno i'r corff cyllido________________ Dyddiad cyflwyno i'w archwilio________________

**ATODIAD 3**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Polisi Rheoli a Chadw Cofnodion UE/CDG Cyngor Sir Ynys Môn

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Cynnwys


1. Pwrpas

2. Rhagarweiniad

3. Cadw Dogfennau UE/CDG

4. Protocol Cadw Dogfennau CSYM

5. Safonau Diogelwch Derbyniol


## Atodiadau


Atodiad A – Safonau Diogelwch Cyfrifiadurol

## 1. Pwrpas

1.1 Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod Cyngor Sir Ynys Môn(CSYM) yn cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau ar gyfer cadw dogfennau llawn a chywir mewn perthynas â phrosiectau a gyllidir trwy Raglen Cydgyfeiriant yr UE a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

1.2 Bydd y polisi hwn yn rhoi canllawiau a chyfarwyddiadau ynglŷn â'r prosesau ar gyfer rheoli cofnodion perthnasol i swyddogion sy'n gweithio ar brosiectau a gyllidir gan yr UE/GAEDG.

## 2. Rhagarweiniad

2.1 Mae'n rhaid rheoli cofnodion mewn perthynas â phrosiectau UE/Y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig (CAEDG) fel bod modd i archwilwyr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru(SCEC) a Llywodraeth Cymru(LlC) gael mynediad i gofnodion prosiectau am gyfnod hir yn unol â gofynion y Comisiwn Ewropeaidd(CE) - o bosib o leiaf 17 mlynedd ar gyfer prosiectau a gychwynnodd yn 2007/2008.

2.2 Yn unol â deddfwriaeth yr UE rhaid i SCEC/LlC sicrhau bod yr holl ddogfennau cefnogol sy'n ymwneud â gwariant ar gael am 3 blynedd ar ôl i'r Rhaglen Weithredol a gyllidodd y gwariant gau'n ffurfiol.

2.3 O'r herwydd, rhaid cadw'r holl gofnodion ar gyfer prosiectau hyd nes y bydd SCEC/LlC yn cadarnhau bod y cyfnod hwn wedi dod i ben. Cadarnheir y dyddiad hwn ar wefan SCEC ac yn uniongyrchol gan LlC ar gyfer prosiectau CDG. Yn seiliedig ar brofiad blaenorol o gau rhaglenni, rhagwelir na fyddir yn cyrraedd y pwynt hwn tan o leiaf 2024.

2.4 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu gofynion sylfaenol SCEC a CE fel y gall sefydliadau benderfynu ar y trefniadau gorau i gwrdd â'u hamgylchiadau unigol.

2.5 Mae'r wybodaeth a'r cyngor yn y ddogfen yn ymwneud yn unig â gofynion rhaglenni 2007-2013 yn hytrach na rhaglenni cynharach. Yn yr un modd, nid yw'n ceisio esbonio na disodli unrhyw un o'r cyfrifoldebau ehangach ar gyfer rheoli cofnodion a all fod yn berthnasol i sefydliad penodol, megis deddfwriaeth Cofnodion Cyhoeddus, Rhyddid Gwybodaeth, Diogelu Data, Archifau Cenedlaethol, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Tŷ'r Cwmnïau ac ati.

2.6 Gellir gweld Canllawiau llawn WEFO ar reoli a chadw cofnodion yn: http://wales.gov.uk/docs/wefo/publications/developingguidance/120906docmanandreten.pdf

## 3. Rheoliadau'r UE ar gyfer Cadw Dogfennau

3.1 Amlinellir opsiynau isod i'w hystyried gan Reolwyr Prosiect. Bydd ffactorau pwysig i'w hystyried yn cynnwys:

- Lle a chostau storio;

- Polisi risg /yr archwaeth am risg sydd gan bob sefydliad mewn perthynas â pha mor dderbyniol yn gyfreithiol yn llysoedd sifil y Deyrnas Unedig yw copïau/sganiau;
- P'un a fydd dogfennau 'gwreiddiol' yn cael eu cadw fel rhywbeth wrth gefn neu'n cael eu dinistrio pan fydd copi neu sgan yn cael ei greu; a
- Hwylustod, mynediad, rhwyddineb cael gafael arnynt i staff rŵan ac yn y dyfodol.

***Yn anffodus ar gyfer Rheolwyr Prosiect cyllid RDP yr unig opsiwn sydd ar gael yw Opsiwn 1 lle y mae'n rhaid cadw fersiynau papur gwreiddiol y dogfennau oherwydd nad yw rhai wedi eu hardystio, eu sganio na llungopïau yn dderbyniol. Os methir â dangos dogfennau gwreiddiol yn ystod archwiliad, gallai hynny olygu crafangu yn ôl a dirwy ychwanegol o werth cyfatebol.***

**3.2 OPSIWN 1 – Gwreiddiol (papur)**

Fe all cadw copïau papur gwreiddiol fod â goblygiadau storio ffisegol sylweddol. Mae difrod ffisegol yn risg ac fe all y gallu i gael gafael ar ddogfennau'n gyflym fod yn heriol, yn arbennig os ydynt yn cael eu storio oddi ar y safle. Bydd angen i gofnodiadau fod wedi eu labelu'n glir ac / neu eu ffeilio ar wahân i gofnodiadau busnes arferol fel bod pob sefydliad sy'n cadw cofnodiadau yn cydymffurfio â'r cyfnod cadw hir. Nid oes angen unrhyw 'broses ardystio' ar gyfer cofnodiadau papur gwreiddiol.

**3.3 OPSIWN 2 – Copi papur (llungopi o'r ddogfen bapur wreiddiol)**

Rhaid i hwn fod y llungopi cyntaf o ddogfen wreiddiol ac nid yn 'gopi o gopi'. Rhaid i ddwy ochr y ddogfen wreiddiol gael eu copïo os yn berthnasol. Rhaid i'r copi fod wedi ei ardystio gan ddefnyddio'r broses ardystio a amlinellir yn y Ddogfen lawn ar gyfer Rheoli a Chadw Cofnodiadau gan SCEC.
<http://wales.gov.uk/docs/SCEC/publications/developingguidance/120906docmanandreten.pdf>.

**3.4 OPSIWN 3 - Sganio dogfen bapur wreiddiol (dogfennau wedi'u digideiddio)**

Gellir sganio cofnodiadau papur gwreiddiol os dilynir y proses ardystio SCEC. Rhaid i ddogfennau wedi'u sganio fod yn gynrychioliad gwir o'r ddogfen wreiddiol (delwedd union run fath, yn cynnwys ochr arall y ddogfen os yn berthnasol) ac ni chaniateir ei chrynhoi, cropio ac ati. Rhaid i unrhyw waith altro a wneir i'r ddelwedd a sganiwyd gael ei logio mewn llwybr archwilio ac ni ddylai newidiadau cyflwynol (contrast, goleuni, troi, chwyddo ac ati.) newid y ddelwedd wreiddiol yn barhaol. Nid yw rheoliadau CE (a SCEC) yn gosod unrhyw ddyletswydd uwch y tu hwnt i ofynion cyfreithiol ac archwilio'r DU ar wahan i'r gofynion i gydymffurfio â'r broses ardystio.

Rhaid i'r scan fod wedi ei ardystio drwy ddefnyddio'r broses ardystio a amlinellwyd yn y Ddogfen Rheoli a Chadw Cofnodiadau lawn gan SCEC. - http://wales.gov.uk/docs/wefo/publications/developingguidance/120906docmanandreten.pdf.

**3.5 OPSIWN 4 - Gwreiddiol (cofnodiadau electronig a dogfennau)**

Yn ymarferol, golyga hyn e-byst, ffeiliau prosesu geiriau, ffeiliau taenlenni, cofnodiadau bas-data, anfonebau electronig a dderbyniwyd gan gyflenwyr, cyfnewid data electronig ac ati.

Gellir cyfnewid y termau ‘dogfen a chofnodiadau’ yn y cyd-destun hwn (yn yr ystyr mai gwybodaeth wedi’i storio mewn fformat cyfrwng penodol yw dogfen).

Lle bo dogfennau’n cael eu creu / eu trosglwyddo, eu ffeilio mewn fersiwn electronig yn unig, y maent i bob pwrpas, yn ‘wreiddiol’ ac felly nid oes angen iddynt gael eu ‘hardystio’.

Fel gyda’r broses sganio yn Opsiwn 3 uchod, rhaid i’r system gyfrifiadurol gadw log trywydd archwilio / system a fyddai’n dangos unrhyw ddiwygiadau i’r cofnodiadau neu ddogfennau (a rhaid iddi fod yn bosibl archwilio’r log hwn hyd 2024 neu’n ddiweddarach).

<u>Nodyn Pwysig</u>

Rhaid i bob sefydliad sy'n dewis cadw cofnodiadau yn electronig / digidol allu egluro a dangos (os gofynnir iddo gan SCEC ac / neu archwilwyr) sut y mae eu systemau SG / TG yn cydymffurfio gyda’r gofynion uchod. Nid yw archwiliadau ac arolygiadau o Gronfeydd Strwythurol wedi cael eu cynllunio i fod yn archwiliadau sy’n cydymffurfio â diogelwch cyfrifiadurol ac felly, yn ymarferol, bydd cofnodiadau’n cael eu derbyn yn ôl eu gwerth arwynebol gydag archwilwyr / arolygwyr yn defnyddio eu barn broffesiynol i nodi unrhyw arwyddion nad yw cofnod yn ddilys neu fod sefydliadau heb fod yn ymwybodol o’r safonau diogelwch a dderbyniwyd neu ddim yn anelu at gydymffurfio â nhw. Yn yr un modd, ni ddylid dehongli archwiliad neu arolygiad llwyddiannus fel un sy’n darparu sicrwydd bod systemau cyfrifiadurol yn cydymffurfio â safonau diogelwch cyfrifiadurol.

### 3.6 OPSIWN 5 - Fersiwn bapur o’r cofnodion / dogfennau electronig

Gellir argraffu rhai dogfennau a chofnodiadau electronig drwy opsiwn ‘argraffu’ integredig yn y meddalwedd – e.e. e-anfonebau a dderbyniwyd drwy e-bost fel dogfennau PDF a ddiogelwyd, cyfriflenni banc PDF a grëwyd gan feddalwedd gwefan ar-lein y banc, neu brif ddogfennau PDF eraill sy’n cael eu cadw o fewn, neu eu creu gan – system ddiogel gydag opsiwn o argraffu copi caled.

Os yw'n well gennych, gall y dogfennau hyn gael eu hargraffu a'u cadw fel cofnodiadau copi caled. Rhaid i'r fersiwn argraffedig gael ei hardystio fel a amlinellir yn y broses ardystio ar gyfer llungopïau (uchod).

Nid yw printiau sgrin neu storfeydd sgrin (copïo delweddau o sgrin a’u gludo i mewn i gymhwysiad arall fel Microsoft Word ac yna eu printio) yn dderbyniol.

## 4. Safonau Diogelwch a Dderbynnir

4.1 Mae’r CE yn dweud bod rhaid i’r systemau cyfrifiadurol uchod fodloni’r safonau diogelwch a dderbynnir er mwyn sicrhau bod y cofnodiadau a gedwir yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol cenedlaethol ac y gellir dibynnu arnynt i bwrpasau archwilio.

4.2 Er mwyn helpu i ddiogelu noddwyr, mae SCEC yn ystyried bod y tair ffynhonnell a amlinellir yn Atodiad A yn awdurdodol, ac yn safonau a ddefnyddir yn gyffredinol / yn ffynonellau o gyfarwyddyd y gellir eu defnyddio fel pwynt cyfeirio i ddarparu sicrwydd ynghylch digonolrwydd safonau diogelwch.

4.3 Y nod allweddol yw bod y wybodaeth yn cynnwys y pedair nodwedd ganlynol o fewn ‘cofnod awdurdodol’:

**Gwreiddiol**
- A yw’r ddogfen/cofnod yn union yr hyn y mae’n honni ei fod?
- A gafodd y ddogfen/cofnod ei ch/greu neu ei h/anfon gan y person yr honnir iddo/iddi ei ch/greu neu ei h/anfon?
- A gafodd y ddogfen/cofnod ei ch/greu neu ei h/anfon ar yr adeg a honnwyd?

**Dibynadwy**
- A ellir dibynnu ar y cofnod dogfennol ac a ellir ymddiried yn ei gynnwys fel un sy’n cynrychioli’r trafodiad yn llawn ac yn gywir, a’r gweithgareddau neu’r ffeithiau y mae’n honni eu cynrychioli?

**Cyfanrwydd**
- A yw’r ddogfen / cofnod yn gyflawn a heb ei newid?

**Defnyddioldeb**
- A fedrir lleoli, gael gafael ar, cyflwyno a dehongli’r ddogfen/cofnod?

4.4 O’r herwydd, rhaid cadw trywydd archwilio/cofnod system awtomataidd er mwyn gallu dangos y pedair nodwedd uchod os bydd angen ac i gefnogi derbynioldeb cyfreithiol. Rhaid i’r cofnod hwn fod ar gael i’w archwilio hyd 2024 neu’r tu draw i hynny. Rhaid i’r cofnodi hwn gofrestru unrhyw newidiadau a wnaed i’r cofnodiadau electronig oni bai y gellir dangos bod fformat y ffeil yn un na ellir eu golygu - er, bod angen cofnod awtomataidd o’r dyddiad / amser y cafodd y cofnod ei greu neu ei sganio bob amser.

4.5 Rhaid i systemau cyfrifiadurol gadw cynnwys gwreiddiol y cofnod pan gafodd ei dderbyn neu am y tro cyntaf e.e. heb ei grynhoi, ei gywasgu na’i agregu.

4.6 Rhaid i bob sefydliad sy’n dewis cadw cofnodion yn electronig / yn ddigidol allu esbonio a dangos (os gofynnir iddo gan SCEC a / neu archwilwyr) sut mae eu systemau SG / TG yn cadw at y gofynion uchod.

## 5. Protocol Cadw Dogfennau CSYM

### 5.1 Ffeilio Dogfennau Prosiect Cyffredinol

Mae’n ofynnol i brosiectau Cynllun Datblygu Gwledig / Ewropeaidd gadw digon o gofnodiadau dogfennol i fodloni archwiliadau yn y dyfodol ar unrhyw wariant a hawlir yn ystod cyfnod y prosiect.

Mae enghreifftiau o’r mathau o ddogfennau i’w cadw fel a ganlyn (nid yn gyflawn):

- Cynllun Busnes y Prosiect;

- Llythyrau Cymeradwyo Prosiect;
- Proffiliau Ariannol a Darparu Prosiect;
- Hysbysiad o newid sylweddol;
- Dogfennau Hawlio Arian ar gyfer Prosiectau (yn cynnwys llyfr cyfrifon ariannol, datganiadau banc, nodiadau cyngor trosglwyddo ac ati.);
- Unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu gwariant (Anfonebau, ffurflenni hawlio costau teithio ac ati.);
- Gohebiaeth e-bost perthnasol sylweddol.

Dylid cadw dogfennau papur gwreiddiol, er enghraifft, gohebiaeth trwy lythyr yn unol ag Opsiwn Cadw 1 (Papur Gwreiddiol).

Bydd angen i rai dogfennau, fel contractau a dogfennau cynllunio busnes gael eu harwyddo a'u dychwelyd er mwyn cwblhau proses o gymeradwyo. Bydd angen i'r dogfennau hyn gael eu copïo (llungopi) ac yna byddant yn dod yn 'Gopi Papur '. Dylid cadw copïau papur yn unol â'r cyfarwyddyd yn Opsiwn Cadw 2.

Rhaid i gopïau a gynhyrchir fod y llungopi cyntaf o ddogfen wreiddiol ac nid yn 'gopi o gopi'. Rhaid copïo dwy ochr y ddogfen wreiddiol os yn berthnasol. Rhaid i'r copi fod wedi ei ardystio gan ddefnyddio'r broses ardystio a amlinellwyd yn Opsiwn 1.

Pan fydd angen ffeilio dogfen electronig fel copi caled, rhaid dilyn y cyfarwyddyd o fewn Opsiwn Cadw 5. Rhaid i fersiynau printiedig gael eu hardystio fel yr amlinellir yn y broses ardystio ar gyfer llungopïau (uchod).

Nid yw printiadau sgrin a storfeydd sgrin (copïo delweddau sgrin a'u gludo hwy i gymhwysiad arall fel Microsoft Word ac yna'u hargraffu) yn dderbyniol.

## 5.2 <u>Taliadau am Nwyddau a Gwasanaethau</u>

Mae System Gyllid 'CIVICA' CSYM yn cefnogi'r broses o gadw cofnodiadau a gynhyrchir pan yn gwneud taliadau am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd ar gyfer prosiect h.y. anfonebau papur, anfonebau electronig, anfonebau a sganiwyd a thaliadau cerdyn caffael (nid yw hon yn rhestr gyflawn).

Bydd gan bob prosiect Gyfrifydd Grant o'r Adran Gyllid wedi'i benodi i weithio gyda'r Swyddog Prosiect er mwyn sicrhau bod rheolaeth ariannol ar y prosiect. Bydd y cyfrifydd yn sefydlu canolfan gost unigryw i'r prosiect ac ystod o godau treuliau o fewn cyfriflyfr cyfrifon yr Awdurdod.

Pan yn prynu nwyddau a gwasanaethau, bydd y swyddog prosiect yn gwneud hynny drwy'r system CIVICA yn ôl y penawdau cost penodol a bydd ef / hi yn cael mynediad iddynt, a bydd hyn wedyn yn cael ei awdurdodi gan uwch swyddog cyn gosod yr archeb gyda'r cyflenwr.

Bydd Archebion Swyddogol (PRD) a gynhyrchir gan CSYM yn cael eu storio o fewn CIVICA yn electronig a dylid eu cadw am 3 blynedd ar ôl cau y rhaglen (a ragwelir ar hyn o bryd yn 2024).

Bydd dogfennau'n ymwneud ag unrhyw drosglwyddiadau mewnol neu drafodion BACS hefyd yn cael eu cadw ar y system fel dogfennau electronig.

Yn dilyn awdurdodi'r pryniant, bydd y cyflenwr yn anfon cais am daliad mewn un o'r ffurfiau canlynol:

a) **Anfonebau papur** - Byddant yn cael eu dychwelyd i CSYM a'u sganio ar gyfer eu mewnbynnu i'r system CIVICA. Bydd hon wedyn yn dod yn ddogfen wedi'i digideiddio. **Ar gyfer prosiectau UE ac RDP dylai'r anfoneb wreiddiol gael ei dileu o'r Credydwyr a'i chadw fel dogfen wreiddiol ar ffeil y prosiect gan y Cyfrifydd Grant, NI DDYLID EU DINISTRIO UNWAITH Y BYDDANT WEDI'U SGANIO AR Y SYSTEM.**

b) **Anfonebau Electronig -** Yn cael eu ffeilio yn electronig fel ffeil / dogfen wreiddiol o fewn system CIVICA. Caiff y rhain eu cyfrif fel rhai gwreiddiol ac nid ydynt angen eu hardystio (gweler Opsiwn 4).

c) **Taliadau Cerdyn Caffael** - Anfonir anfonebau credydwyr: (datganiadau cerdyn) yn electronig a dylid eu trin gan ddefnyddio'r un broses ag anfoneb electronig. Anfonebau cyflenwyr: Os dychwelir hwy yn electronig, gellir eu trin fel uchod. Os dychwelir fel copi papur, dylid eu cadw yn unol â'r cyfarwyddyd ar anfonebau papur.

**NODER: GELLIR CANFOD PROSESAU HAWLIO LLAWN A THALIADAU YNG NGHYFARWYDDYD RHEOLI PROSIECT UE CSYM:**
<http://www.anglesey.gov.uk/business/european-funding/eu-convergence/european-guidance-notes-project-management-and-frameworks/eu-project-management-guidelines>

## 5.3 Archifo

Yn dilyn cwblhau'r prosiect bydd yr Adran sy'n rhedeg y Prosiect / Rheolwr Prosiect / Swyddog Cyfrifol yn gyfrifol am archifo'r ffeiliau prosiect a'u trosglwyddo i'r Uned Archif yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan Uwch Archifydd CSYM. Bydd cofnod o'r holl ffeiliau a drosglwyddir i'r Archifdy yn cael ei gadw gan bob tîm, gyda chofnod / log ynghylch pryd y cafodd y ffeiliau eu trosglwyddo. Bydd mynediad i ffeiliau'n cael ei reoli gan y Rheolwyr Tîm a'r Uwch Archifydd.

Bydd y Cyfrifydd Grant yn cadw'r holl ddogfennau cyllid gwreiddiol ar ei ffeiliau prosiect ac yn eu trosglwyddo hwy i'w storio i'r Archif Cyllid yn dilyn cwblhau'r Atodlen Archif Grant.

**NODER: RHAID I'R HOLL DDOGFENNAU A ARCHIFWYD DDAL I ARDDANGOS LABELI YN NODI'R DYDDIAD CYNTAF POSIBL Y GELLIR CAEL GWARED ARNYNT (AR HYN O BRYD 2024) YN UNOL Â RHEOLIADAU UE.**
http://wales.gov.uk/docs/SCEC/publications/developingguidance/120906docmanandreten.pdf.

Bydd y broses o gael gafael ar gofnodiadau o'r Archifdy yn dilyn gweithdrefnau sefydledig. Bydd adalw ffeiliau yn barhaol o'r cyfleuster yn cael ei awdurdodi gan Reolwyr Tîm gyda chofnod priodol yn cael ei wneud yng nghofrestr y ffeil.

**NODER: RHAID I UNRHYW DDOGFENNAU A ARCHIFIR FOD MEWN BOCSYS WEDI'U MYNEGEIO'N LLAWN; GAN SICRHAU EU BOD YN HAWDD CAEL**

**GAFAEL ARNYNT YN UNOL Â'R AMSERLEN A RODDWYD GERBRON GAN Y TÎM ARCHWILIO UE.**
http://wales.gov.uk/docs/SCEC/publications/developingguidance/120906docmanandreten.pdf.

Ar hyn o bryd, ni chodir unrhyw ffi am storio yn Archifdy Ynys Môn. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau cynyddol ar gyllidebau gwasanaeth, fe all hyn newid yn y dyfodol agos. Bydd costau archifo'n cael eu priodoli i'r Adran sy'n Cynnal y Prosiect.

**NODER: MAE ARCHIFO PROSIECT YN RHAN HANFODOL O WEITHDREFNAU CAU PROSIECT UE A RHAID EI FABWYSIADU FEL RHAN O'R GWEITHDREFNAU CAU.**

## 5.4 Cadw E-byst

Cyfrifoldeb y rheolwr prosiect yw sicrhau y cedwir ac y ffeilir unrhyw ddogfennau allweddol a dderbyniwyd drwy e-bost.

Ni ddylai unrhyw ddogfennau a dderbyniwyd drwy e-bost gael eu cadw o fewn y system Outlook. Dylai dogfennau allweddol / gohebiaeth e-bost gael eu hargraffu a'u ffeilio yn unol â'r cyfarwyddyd ar gadw yn Opsiwn 1 (Papur Gwreiddiol).

Ni ddylid defnyddio system e-bost CSYM fel system rheoli dogfennau.

## 5.5 Trosiant Staff

Cyfrifoldeb y Rheolwr Prosiect yw sicrhau bod swyddogion sy'n symud i rôl arall neu sy'n gadael yr Awdurdod yn adolygu eu cyfrifon e-bost ac yn ffeilio (fel copïau caled) unrhyw ddogfennau allweddol a dderbyniwyd, ac yn dileu unrhyw e-byst personol cyn gadael eu swydd.

Mae'r camau canlynol yn crynhoi'r camau sydd eu hangen (mewn perthynas â chyfrifon e-bost) pan fydd swyddog sy'n gweithio ar brosiect Ewropeaidd yn gadael eu rôl:

- Rheolwr Prosiect a Swyddog Prosiect i drafod amseriad gadael y swydd, y rhaglen waith gysylltiedig a'r cyfnod rhybudd (fel arfer yn 1 mis);
- Swyddog Prosiect i hysbysu'r adran TGCh o'r cyfnod ymadael a rhybudd;
- Y Swyddog Prosiect i adolygu a ffeilio dogfennau e-byst allweddol a dileu gwybodaeth bersonol yn ystod y cyfnod rhybudd penodedig;
- TGCh i ddarparu mynediad procsi i gyfrif e-bost y swydd berthnasol i'r Rheolwr Prosiect hyd nes y caiff y swydd ei llenwi;
- TGCh i wneud copi (CD) o'r cyfrif e-bost perthnasol ar gyfer y dyfodol;
- Deiliad newydd y swydd i gael mynediad i'r 'hen' gyfrif e-bost a chopi o'r ffeiliau (CD) gan TGCh.

# ATODIAD A – Safonau Diogelwch Cyfrifiadurol

Mae SCEC yn ystyried bod y tair ffynhonnell ganlynol a amlinellwyd yn rhai awdurdodol, yn rhai a ddefnyddir yn gyffredin, yn safonau / gofynion hir sefydlog y gall noddwyr prosiect eu defnyddio fel pwynt cyfeirio i ddarparu sicrwydd ynglŷn â digonolrwydd eu systemau diogelwch cyfrifiadurol.

Mae'r tair ffynhonnell yn rhannu gofynion sylfaenol cyffredin ac mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio noddwyr prosiect ar yr elfennau allweddol.

- **ISO 15489** sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol (yn cynnwys gan Archifau Cenedlaethol y DU) fel testun rheoli cofnodiadau awdurdodol. Mae Llywodraeth Cymru yn dylunio ei systemau TG craidd ei hun i gydymffurfio â'r safon hon.

- **BSI 10008** (2008) Sefydliad Safonau Prydeinig, Côd Ymarfer ar Dderbynioldeb Cyfreithiol a Phwysau Tystiolaethol Gwybodaeth sy'n cael ei Storio'n Electronig. Mae'r côd hefyd yn tynnu ar ofynion ISO 15489.

- **MoReq2** (Gofynion Model ar gyfer Rheoli Cofnodiadau Electronig 2008). Mae'r Archifau Cenedlaethol yn cadarnhau ac yn cymryd rhan yn y fenter UE hon, sy'n ymgorffori ac yn cysoni'r cyfan neu ran o'r safonau cenedlaethol ar draws yr Aelod Wladwriaethau Ewropeaidd sy'n cymryd rhan.

**ATODIAD 4**

**RHESTR WIRIO DERBYN GRANT**

| **I'W GWBLHAU GAN Y GWASANAETH SY'N DERBYN Y GRANT** | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Grant** | | | |
| **Swm a Ddyfarnwyd** | | **Cyfnod y Dyfarniad** | O<br>I |
| **Rheolwr Prosiect** | | **Gwasanaeth** | |
| **Nodwch os gwelwch yn dda pa gategori o gyllid sy'n disgrifio'r grant orau**<br>Grant yn digwydd yn flynyddol Prosiect newydd unwaith ac am byth Rhaglen newydd<br>Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | | | |
| **A yw'r llythyr Cynnig yn gywir o ran dyddiad dechrau, diweddu, cyllido, deilliannau?**<br>Ydi/Na **os Na, dychwelwch y Llythyr Cynnig os gwelwch yn dda i'r corff cyllido yn gofyn am iddo gael ei newid.** | | | |
| **A yw'r grant angen adnodd ychwanegol gan:**<br>**Caffael** Ydyw/Nac ydyw **TGCh** Ydyw/Nac ydyw<br>**Arall (nodwch os gwelwch yn dda)** | | **A yw hwn yn brosiect cyfalaf gyda goblygiadau refeniw parhaus** Ydyw / Nac ydyw<br>**A fydd staff yn cael eu cyllido gyda'r grant** Bydd/Na<br>**Os bydd, faint?** | |
| **A oes unrhyw oblygiadau Nawdd Gwladol i'r grant?** Oes/Na | | **A fydd unrhyw ran o'r grant yn cael ei dirprwyo i drydydd partïon?** Bydd/Na fydd | |
| **A fydd unrhyw ran o'r grant yn cael ei dyfarnu i Sefydliadau Trydydd Sector?** Bydd/Na fydd | | **A yw'r Swyddog Perfformiad Corfforaethol, Cynllunio a Rhaglen yn ymwybodol o'r grant?** Ydyw/Nac ydyw | |
| **I'W GWBLHAU GAN CYLLID** | | | |
| **Cyfrifydd Cyfrifol** | | **A oes angen archwiliad allanol?** Oes/Na | |
| **Lefel y risg ariannol i'r Awdurdod** Uchel Canolig Isel<br>**Rheswm** | | | |
| **Angen canolfan gost newydd?** Oes/Na | | **Angen arian cyfatebol?** Oes/Na | |
| **Dyddiad arwyddo gan A151** | | **Dyddiad dychwelwyd i'r corff cyllido** | |